# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 18FED MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679256**

**iwanedwards@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 10 Mawrth 2025)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Robert Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Freddie Collier | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Gwilym Jones | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 7

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi a gynhaliwyd ar y 15 o Hydref 2024.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 13

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar y 14 Hydref 2025.

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 15 HYDREF 2024

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr Gwynedd:** Y Cynghorwyr Robert Dewi Owen & Anne Lloyd Jones.

**Aelodau Cyfetholedig:** Freddie Collier (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Robert Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi)

**Sylwedyddion:** Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Swyddogion yn bresennol:** Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD Etholwyd y Cynghorydd Robert Dewi Owen fel Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD Etholwyd y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones fel Is-gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

### 3. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn, a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024, fel rhai cywir.

### 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r Uwch Swyddog Harbyrau. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Cadarnhawyd bod 81 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi eleni. Nodwyd bod hyn yn gynnydd bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ble roedd 72 o angorfeydd blynyddol. Gobeithiwyd bydd y ffigwr hwn yn parhau i gynyddu i'r dyfodol.

Eglurwyd bod unrhyw un sydd yn dymuno cofrestru eu bad pŵer yn gwneud hynny drwy wefan y Cyngor. Adroddwyd bod 1013 o gychod pŵer a 1044 o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru'r tymor hwn. Nodwyd hefyd bod 84 cwch gydag injan o dan 10hp wedi eu cofrestru, sef cyfanswm o 2141 fadau ar gyfer y tymor. .y. Cydnabuwyd bod hyn 368 yn is na'r tymor

blaenorol, ble roedd 2509 o gofrestriadau. Ystyriwyd mai'r prif ffactorau am y lleihad hwn yw tywydd ansefydlog a'r hinsawdd ariannol bresennol.

Sicrhawyd bod yr harbwr yn cydymffurfio â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd, sy'n amlinellu safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol.. Eglurwyd bod y Gwasanaeth yn adolygu'r cod ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda newidiadau statudol diweddar. Anogwyd yr aelodau i ddod i gyswllt gyda swyddogion os oes ganddynt unrhyw sylwadau ar beth ddylai gael ystyriaeth wrth ei addasu.

Croesawyd Mr Thomas Walton sydd wedi cael ei benodi yn Harbwrfeistr Cynorthwyol ers mis Ebrill eleni. Diolchwyd hefyd i'r wardeniaid traeth tymhorol a fu'n gweithio yn Aberdyfi a Thywyn dros y tymor.. Tynnwyd sylw penodol at ddau swyddog a oedd wedi cysylltu gyda Gwylwyr y Glannau ynglŷn â digwyddiad difrifol a oedd yn datblygu ar ochr arall i'r afon. . Diolchwyd iddynt am ymateb yn brydlon a nodwyd bod cais am ganmoliaeth (commendation) y Bad Achub yn dilyn y digwyddiad. Cyhoeddwyd bod yr Uwch Swyddog Harbyrau wedi cychwyn proses ymddeol a byddai'n gorffen gyda'r gwasanaeth yn fuan ym mis Mawrth 2025. Diolchwyd iddo am ei holl waith dros nifer o flynyddoedd a rhannwyd dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

Tywyswyd yr aelodau drwy berfformiad ariannol yr harbwr ar gyfer 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025. Manylwyd ar y prif bwyntiau canlynol gan bwysleisio mai rhagdybiaeth o'r gwariant cyflawn y cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a rannwyd, yn seiliedig ar wariant hyd at 31 Awst 2024, a gall y sefyllfa newid os bydd argyfwng yn codi:

- **Gweithwyr** - Rhagdybiwyd tanwariant o £1,894 yng nghyllidebau cyflogau a chostau swyddogaethau oherwydd bod yr Harbwrfeistr Cynorthwyol wedi cychwyn yn ei rôl ar ddyddiad hwyrach na 1 Ebrill 2024.
- **Eiddo** - Proffwydwyd tanwariant o £10,333 yn y gyllideb hon, sy'n gyfrifol am gynnal tiroedd, casglu sbwriel ac ati. Eglurwyd bod tanwariant yn y gyllideb gan nad oes costau sylweddol hyd yma wedi codi. .
- **Trafnidiaeth** - Ystyriwyd bydd tanwariant o £218 yn y gyllideb hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Eglurwyd nad yw'r gyllideb hon yn cynnwys costau rhedeg a chynnal a chadw cerbyd y gwasanaeth, ond ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tanwydd y cwch patrôl a chostau teithio staff. Nodwyd bod tanwariant yn y gyllideb hon eleni gan fod tywydd ansefydlog wedi rhwystro staff rhag gwneud defnydd llawn o'r cwch patrôl, gan arwain at arbediad yng nghostau'r tanwydd.
- **Gwasanaethau a Chyflenwadau** - Rhagdybiwyd gorwariant o oddeutu £14,242 o fewn y gyllideb hon. Esboniwyd fod y gyllideb yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llu o nwyddau megis offer, arwyddion, goleuadau, cymhorthion mordwyo a thrydan. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn cael ei gynnal oherwydd credir bod y gyllideb hon wedi ei osod yn rhy isel ar gyfer eleni (£6,630). Gobeithiwyd bydd y gyllideb hon yn cael ei nodi yn uwch i'r dyfodol gan achosi llai o orwariant.
- **Gwariant Un Tro – Ariannu o Gronfeydd yr Adran** – Cadarnhawyd nad oedd cyllideb wedi cael ei osod ar gyfer y defnydd o gronfeydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod gwariant o £7,294 wedi bod ar y caban 'dros dro' i staff yr harbwr.. Cydnabuwyd bod y gwariant hwn wedi ei nodi fel gorwariant oherwydd nad oedd cyllideb wedi cael ei osod ar ei gyfer eleni. Pwysleisiwyd nad yw'r gwariant yn cael effaith ar berfformiad cyllidol yr harbwr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon gan ei fod yn wariant un tro o'r gronfa.

Eglurwyd y rhagdybiwyd bydd yr harbwr yn gorwario oddeutu £9,292 dros y gyllideb a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (£108,900). Fodd bynnag, mynegwyd balchder bod yr harbwr wedi llwyddo i dderbyn £11,167 yn fwy o incwm na'r targed a osodwyd am y flwyddyn, sef £43,510. Datganwyd bod hyn y newyddion positif iawn i ddyfodol yr harbwr a'i fod yn amlygu bod cryn dipyn o ddefnydd ar wasanaethau'r harbwr. Tynnwyd sylw hefyd bod codi ffi am barciotrelars ar dir yr harbwr wedi creu mwy o incwm eleni a bydd hyn yn parhau i'r dyfodol.

Adroddwyd y rhagdybir tanwariant o £9,170 yng nghyllideb gyflawn yr harbwr erbyn diwedd Mawrth 2025 wrth ystyried y gwariant uchod a'r incwm sydd wedi dod i mewn hyd yma.

Cydnabuwyd bydd cyfraddau ffioedd a thaliadau'r harbwr yn cael eu haddasu yn y dyfodol agos yn unol â lefel chwyddiant. Nodwyd bydd swyddogion yn ymdrechu i sicrhau bod y ffioedd yn cael eu codi digon i gyfarch costau ond i beidio a'u cynyddu'n ormodol. Nodwyd bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ffioedd yr Awdurdodau Lleol cyfagos wrth ddod i benderfyniad. Eglurwyd bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ar ffioedd y tymor nesaf erbyn Mawrth 2025.

Eglurwyd bod cynnydd bychan i'w weld yn nifer cwsmeriaid gyda chytundebau blynyddol ar angorfeydd yr harbwr, a bod cynnydd i'w weld ers rhai blynyddoedd. Ymfalchïwyd bod nifer o ymholiadau wedi cael eu derbyn gan gwsmeriaid newydd yn ogystal â chwsmeriaid sydd yn dod yn ôl yn flynyddol. Cydnabuwyd nad yw rhai cwsmeriaid wedi dod yn ôl yn dilyn y pandemig ac eraill ddim wedi dychwelyd oherwydd y wasgfa ariannol.

Tynnwyd sylw at holiadur boddhad cwsmer sydd yn weithredol ers 2023. Eglurwyd y gall cwsmeriaid gael mynediad at yr holiadur hwn drwy ddefnyddio cod QR sydd wedi ei leoli mewn gwahanol ardaloedd yn yr harbwr, yn ogystal â holiadur sydd ar lein.. Adroddwyd bod 86% o'r ymatebion a dderbyniwyd yn nodi bod eu profiad o'r harbwr yn dda iawn a bod sylwadau cadarnhaol wedi eu derbyn am broffesiynoldeb ac agwedd y swyddogion. Cadarnhawyd nad oedd un ymatebydd wedi nodi bod y gwasanaethau yn 'wael'. Cydnabuwyd bod swyddogion yn awyddus i fwy o gwsmeriaid gymryd mantais o'r holiadur boddhad er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau o'r gwasanaethau a ddarperir yn cael adborth cyson. Cyfeiriwyd hefyd at holiaduron boddhad cwsmer ar gyfer y traethau gan nodi bod sylwadau da iawn wedi eu derbyn.

Cadarnhawyd bod archwiliad blynyddol diweddar gan Tŷ'r Drindod yn cadarnhau bod pob cymhorthydd mordwyo ar eu safle priodol.. Ymhelaethwyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn sicrhau bod 2 farc mordwyo yn cael eu pintio yn ardal Tywyn.

Mynegwyd balchder nad oes yna unrhyw Rybudd i Forwyr yn weithredol yn yr harbwr ar hyn o bryd, Diolchwyd i gontractwyr lleol sydd yn cynorthwyo swyddogion i symud cymhorthion yn ôl yr angen. Cadarnhawyd bod swyddogion hefyd yn gwneud defnydd o ddrôn er mwyn ymdrechu i weld newidiadau yn y sianel.

Eglurwyd bod cynnydd i'w weld o'r tywod sy'n parhau i gasglu ar y llithrfa ger Gorsaf y Bad Achub a Chlwb Hwylio Dyfi. Nodwyd ei fod yn heriol i dynnu'r tywod oddi arno ar hyn o bryd gan fod lefel y tywod yn uchel yn gyffredinol ar y prif draeth.

Atgoffwyd bod staff yr harbwr bellach wedi symud i weithio o'r caban 'dros dro' tra mae gwaith adnewyddu angenrheidiol yn cael ei gwblhau ar y brif swyddfa. Ymestynnwyd croeso i unrhyw un sydd angen cymorth staff yr harbwr i ddod draw i'r caban am sgwrs. Ychwanegodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Economi a Chymuned bod Cynllun Rheoli Asedau 2024 - 2034 Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo £500,000 ar gyfer datblygu'r swyddfa. Nodwyd bod cais wedi cael ei gyflwyno i'r adran Eiddo er mwyn penodi penseiri i ddylunio'r adeilad sy'n gweddu'r dirwedd ac atgyfnerthu'r sylfaeni. Sicrhawyd bydd y dyluniadau cychwynnol yn cael ei rannu gyda'r cyrff ac asiantaethau lleol. Rhagdybiwyd bydd yr adeilad newydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2025.

Nodwyd bod yna nifer o ymholiadau am anifeiliaid a gwastraff sydd wedi ei golchi fyny ar y traeth yn ystod y tymor. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i ddarparu cyfeirnod i'r lleoliad drwy What 3 Words neu gyfeirnod grid. . Cadarnhawyd bod achos trist wedi bod ar ddechrau'r flwyddyn ble roedd defaid wedi cael eu cario yn nŵr yr afon ac wedi golchi fyny ar y traeth. Nodwyd bod modd cysylltu gyda'r perchnogion os oes tag ar yr anifeiliaid a'u bod nhw yn eu gwaredu. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o achosion ble mae morloi wedi golchi fyny ar y traeth. Eglurwyd mai claddu'r anifeiliaid mae'r swyddogion yn ei wneud bryd hynny. Eglurwyd bod

swyddogion wedi prynu beic cwad er mwyn gallu gwaredu carcasau anifeiliaid sydd wedi golchi fyny mewn lleoliadau nad oes modd i’r cwch patrôl ei gyrraedd. Ymhelaethwyd bod staff yn ymchwilio i brynu trelar pwrpasol ar gyfer y defnydd hwn hefyd.

Mynegwyd pryder am dywod sydd yn casglu ger maes parcio'r traeth. Nodwyd bod posibilrwydd i’r tywod gael ei chwythu i ddraeniau cyfagos yn dilyn gwynt mawr gan achosi trafferthion wrth waredu dŵr. Cadarnhawyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal er mwyn codi wal yn y maes parcio er mwyn lleihau rhai o’r risgiau hyn ond nodwyd nad oes datblygiad i drefniadau hyd yma.

Diolchwyd i dîm ‘Plastic Free Aberdyfi’ am eu gwaith gwirfoddol yn casglu sbwriel ar y traeth. Cadarnhawyd fod hon yn berthynas gwerthfawr iawn i ardal yr harbwr ac yn lleihau baich gwaith y swyddogion. Atgoffwyd holl ymwelwyr y traeth i gysylltu gyda staff yr harbwr os ydynt yn gweld gwastraff mawr na allent ei gasglu, gan sicrhau bydd aelod o staff yn mynd i gasglu’r sbwriel gyda threlar a’i waredu.

Nodwyd bod cynnydd mewn niferoedd o ganŵs sydd yn cael eu gadael ar ôl ar y traeth. Eglurodd yr Harbwrfeistr bod rhybudd yn cael ei osod ar bob canŵ sydd yn cael eu gadael am amser hir. Ymhelaethwyd bod y rhain yn cael eu symud i’r storfa ac mae modd i bobl eu casglu. Cyfeiriwyd hefyd at drefniant tebyg sydd mewn lle ar gyfer cychod mwy, gan gadarnhau bod modd rhoi rhybudd gwaredu arnynt os nad ydynt yn cael defnydd ac yn creu trafferthion.

Darparwyd diweddariad ar ddigwyddiad difrifol a ddigwyddodd yn nyfroedd yr harbwr ym mis Mai 2023. Cadarnhawyd bod ymchwiliad Heddlu Gogledd Cymru yn parhau ac mae’r achos wedi cael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron.

Rhannwyd gwybodaeth a manylion am nifer o ddigwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar gan gynnwys Pencampwriaeth Badau Rasio Arfordir Cymru, Regata Flynyddol Rhwyfo Môr Cymru, WeSwimRun ac Aquathon Dyfi.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 18fed Mawrth 2025.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 11:45yb.

________________________________________
(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **D A Cartwright Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.**

2.1 Cyn cyfnod y Pasg, bydd yr Harbwrfeistr a'i gymhorthydd yn cynnal arolwg o'r afon i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf addas i osod angorfeydd yr harbwr. Mae cwsmeriaid yn cael eu cynghori, oherwydd y symudiad a'r cynnydd mewn banciau tywod yn yr aber, efallai bydd rhaid symud rhai angorfeydd i'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer y math o gwch.

2.2 Disgwylir i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr, neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod, gwblhau'r broses ar-lein yn brydlon trwy wefan Cyngor Gwynedd o 1 Ebrill, cyn gynted ag y bydd y ffioedd priodol wedi'u cadarnhau. Wedi hynny, dylai cwsmeriaid angorfeydd gysylltu â'r Harbwrfeistr i gadarnhau eu lleoliad angori yn yr harbwr.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn mwynhau'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu gan y cei newydd. Rydym wedi derbyn adborth croesawgar iawn dros y 12 mis diwethaf ynghylch y Cei newydd.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae'r Harbwrfeistr Cynorthwyol, Tom Walton, wedi setlo'n dda gyda'r Gwasanaeth ac rydym yn hapus gyda'i gynnydd yn Aberdyfi dan oruchwyliaeth yr Harbwrfeistr Will Stockford.

4.2 Mae'r Swyddog Traethau parhaol newydd ar gyfer Meirionnydd, Nicola Salt, hefyd wedi lleddfu pwysau ar staff yr Harbwr sydd wedi gorfod rheoli ardal y Traeth yn y gorffennol.

4.3 Mae swyddfa'r Harbwr dros dro ar y cei yn sicrhau bod gan staff lety a chyfleusterau addas i gyflawni eu dyletswyddau tra bo' swyddfa barhaol newydd yn cael ei datblygu.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Rheolwr Gwasanaeth.

5.2 Yn ystod y gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2025/26.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, fel ag o'r blaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A.Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi parhau i gael ei fonitro drwy dymor y gaeaf. Mae natur ffisegol yr afon ac ardal yr harbwr yn parhau i newid. Roedd y llanw aruthrol o uchel ar ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth wedi galluogi'r gwasanaeth i asesu gofod angori cyn y tymor a ddaw. Bydd arolygon ac archwiliadau pellach yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth dros y misoedd nesaf.

1.2 Ar hyn o bryd, mae un 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' (*Notices to Mariners*) yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

Bwi Bar: Rhif 1 Starboard: Fl.G.5s Nid yw'r cymhorthydd mordwyo ar ei safle priodol.

Mae golau mordwyo'r cymhorthydd mordwyo dal i fod ymlaen oherwydd ei safle yn y sianel.

1.3 Erbyn hyn, mae modd gweld pob Hysbysiad i Forwyr cyfredol ar gyfer y sir ar dudalen Morol gwefan Cyngor Gwynedd. Hysbysiadau Lleol i Forwyr (llyw.cymru) https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Maritime/Local-Notices-to-Mariners.aspx

1.4 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch mordwyo.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae'r gwasanaeth wedi derbyn nifer rhesymol o ffurflenni angori (ar adeg cyhoeddi) ac yn trafod gyda'r contractwr lleol i benderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer angori'r tymor hwn.

2.2 Mae deinameg yr afon yn parhau i newid gyda phob llanw, a golyga hyn, yn ei dro, na fydd yr holl angorfeydd yn dychwelyd i'w lleoliad hanesyddol. Mae'r gwasanaeth yn gofyn i bob perchennog cwch ddeall y sefyllfa a phwysigrwydd gweithio gyda'r llanw i sicrhau defnydd diogel o'u cychod. Bydd rhai angorfeydd i ddwyrain Penhelyg yn profi cyfyngiadau llanwol.

2.3 Mae'r tywod sy'n casglu yn parhau i gynyddu a llesteirio defnydd y llithrfa sydd gyferbyn â Gorsaf y Bad Achub ac eiddo Clwb Hwylio Dyfi. Gyda lefel y prif draeth fel y mae ar hyn o bryd, mae tynnu tywod o'r llithrfa yn parhau i fod yn broblem gyson. Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi'n fawr ymdrechion rhanddeiliaid lleol i ddod o hyd i ddatrysiad i'r broblem.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Mae swyddfa'r harbwr erbyn hyn wedi symud i'r strwythur dros dro ar y cei tra bo' cynnydd dal i fod wrth ddatblygu adeilad swyddfa parhaol newydd. Dymuna'r gwasanaeth ddiolch i chi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth ar hyn o bryd.

3.2 Mae cwch patrôl yr harbwr bellach wedi cael ei arolygiad codio blynyddol a gwasanaeth llawn cyn lansio ar ddechrau'r tymor.

3.3 Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio yn ystod cyfnod y gaeaf yn clirio Lloc yr Harbwr o eitemau sydd wedi'u gwaredu a llystyfiant sydd wedi gordyfu. Gofynnwn yn garedig i ddefnyddwyr y lloc gael gwared ar unrhyw eitemau diangen o'r lloc cyn gynted â phosib.

3.4 Cronnwyd sawl diwrnod ymatebol yn sgil gwaith i waredu a chladdu carcasau ar y blaendraeth. Gofynna'r gwasanaeth i unrhyw adroddiadau am garcasau ar y blaendraeth gynnwys gwybodaeth fanwl gywir am eu lleoliad, megis, *what 3 words* neu Gyfeirnod Grid.

3. Cynhaliwyd gwaith ar angorfeydd cychod yr harbwr ac ymwelwyr cyn y tymor a ddaw, gan sicrhau eu bod yn cwrdd â rheoliadau Cyngor Gwynedd.

**H4 Digwyddiadau**

4.1 Derbyniwyd cais llawn a manwl ar gyfer digwyddiadau hwylio gan Glwb Hwylio Dyfi a chafodd ei gadarnhau gan Swyddfa Harbwr Aberdyfi.

4.2 Clwb Rhwyfo Aberdyfi - Regata Rhwyfo Cychod Hir Celtaidd 1 Mehefin 2025

4.3 Clwb Rhwyfo Aberdyfi - Regata Cynghrair Badau Rasio 5 Gorffennaf 2025

4.4 WeSwimRun - Derbyniwyd dyddiadau ar gyfer 4 digwyddiad ar wahân ym mis Gorffennaf, Awst a Medi.

4.5 'Ride Out' Clwb Jet Ski Bae Colwyn 2025

Derbyniwyd cais i ddefnyddio'r harbwr fel man troi ar gyfer y digwyddiad uchod.

4.6 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod yn ddigon buan am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

4.6.1 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn manylu ar yr amgylchiadau, o ran unrhyw

gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

| HARBWR ABERDYFI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) | Adolygiad Awst | Gwahanaieth Rhwng Adroddiad Awst ac Adroddiad Tachwedd |
| Gweithwyr | 73,450 | 71,056 | (2,394) | (1,894) | (500) |
| | | | | | |
| Eiddo | 26,010 | 15,289 | (10,721) | (10,133) | (588) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | 810 | 742 | (68) | (218) | 150 |
| | | | | | |
| Gwasanethau a Chyflenwadau | 8,630 | 20,668 | 12,038 | 14,242 | (2,204) |
| | | | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 16,259 | 16,259 | 7,294 | 8,965 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | 108,900 | 124,015 | 15,115 | 9,292 | 5,823 |
| | | | | | |
| Incwm | (43,510) | (58,576) | (15,066) | (11,167) | (3,899) |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (16,259) | (16,259) | (7,294) | (8,965) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | 65,390 | 49,180 | (16,210) | (9,170) | (7,041) |

| ABERDOVEY HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2024 to 31 March 2025 - November 2024 Review | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BUDGET FOR THE PERIOD 1/4/24 TO 31/3/25 | EXPENDITURE FORECASTED 1/4/24 TO 31/3/25 | OVER (UNDER) | August Review | Variance between August & Novemnber Reviews |
| Employees | 73,450 | 71,056 | (2,394) | (1,894) | (500) |
| | | | | | |
| Buildings | 26,010 | 15,289 | (10,721) | (10,133) | (588) |
| | | | | | |
| Transport | 810 | 742 | (68) | (218) | 150 |
| | | | | | |
| Supplies & Services | 8,630 | 20,668 | 12,038 | 14,242 | (2,204) |
| | | | | | |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 16,259 | 16,259 | 7,294 | 8,965 |
| | | | | | |
| **Total Expenditure** | **108,900** | **124,015** | **15,115** | **9,292** | **5,823** |
| | | | | | |
| Income | (43,510) | (58,576) | (15,066) | (11,167) | (3,899) |
| Contribution from Reserves Tov | 0 | (16,259) | (16,259) | (7,294) | (8,965) |
| | | | | | |
| **Total Net** | **65,390** | **49,180** | **(16,210)** | **(9,170)** | **(7,041)** |